


# TOMOS YN AMAU

Mae Tomos y disgybl oedd a'r llysenw, yr Efaill, yn cael ei alw yn Tomos, yr amheuwyr. Pan wnaeth Iesu ymddangos ar ol dod yn ol yn fyw, doedd Tomos ddim efo'r disgyblion eraill. Felly doedd o ddim yn credu fod Iesu yn wedi dod ol yn fyw. Wyth diwrnod wedyn wnaeth Iesu ymddangos eto i'r disgyblion. Y tro yma roedd Tomos efo nhw ac mi wnaeth o gredu fod ei Arglydd yn fyw eto.



**Ond mae'r cwbl sydd yma wedi'i ysgrifennu er mwyn i chi gredu mai Iesu ydy'r Meseia, mab Duw. Pan fyddwch chi'n credu byddwch chi'n cael bywyd drwy ei awdurdod o.     Ioan 20:31**



# Gwers 24

## TOMOS YN AMAU

**Testun y Beibl:** Ioan 20:24-31

**Adnod allweddol:** Ioan 20-31

**Pwrpas:** Bydd y plant yn darganfod sut wnaeth Iesu ymddangos i Tomos. Gall y plant gael y cyfle i gyfarfod a Iesu trwy ffydd.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer y plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd a'r amser sydd ar gael ayb.

### 1. Gwers

Cyn gweithio ar y daflen liwio, cyflwynwch hanes Tomos i'r plant.

Pan wnaeth Iesu ymddangos i'r disgyblion ar ol dod yn ol yn fyw, doedd Tomos ddim efo nhw. Felly pan ddwedodd y disgyblion wrth Tomos "Dyn ni wedi gweld yr Arglwydd!" ei ateb oedd, "Nes i mi gael gweld ol yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!" Wnaeth yr Arglwydd Iesu ddim condemnio Tomos am amau, na gwylltio efo fo ond fe wnaeth ei helpu o i gredu. Fe wnaeth o ddangos ei hun i Tomos. Mi wnaeth o adael i Tomos gyffwrdd ei ddwylo a rhoi ei law yn ei ochr. Wedyn wnaeth Tomos gredu a deud wrth Iesu, "Ti ydy fy Arglwydd i a fy Nuw". Bryd hynny, wnaeth Iesu ddeud rywbeth wrth Tomos sy'n wir i ni heddiw. "Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr."

### 2. Gweithgareddau

#### 1 Yr Adnod Allweddol:

a) Darllenwch yr adnod yn uchel.

Ond mae'r cwbl sydd yma wedi'i ysgrifennu er mwyn i chi gredu mai Iesu ydy'r Meseia, mab Duw. Pan fyddwch chi'n credu byddwch chi'n cael bywyd drwy ei awdurdod o. Ioan 20:31

b) Eglurwch y geiriau allweddol yn yr adnod:

- Mae popeth sydd wedi ei ysgrifennu yn y Beibl yno i chi ei gredu.
- Bydd pwy bynnag sy'n credu mai Iesu ydy'r Crist, mab Duw, yn cael bywyd am byth.

## c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

### 2 Cwestiynau adolygu i'r plant

- Beth wnaeth Tomos ddweud pan ddwedodd y disgyblion eraill fod Iesu wedi dod yn ol yn fyw?
- Beth wnaeth Tomos ddweud pan wnaeth Iesu ddangos ei hun iddo?
- Beth ddwedodd Iesu wrth Tomos am ffydd?
- Pwy ydy Iesu?
- Pwy sy'n medru cael bywyd am byth?

### 3 Taflen Waith

- Holwch: "Beth sy'n ei wneud yn bosibl i ni gael bywyd am byth?"
- Dwedwch wrth y plant am gysylltu'r rhifau. Fe welan nhw siap croes.
- Eglurwch fel mae marwolaeth Iesu ar y groes yn ei gwneud yn bosibl i'n pechodau ni gael eu maddau ac i ni gael bywyd am byth.
- Holwch: Sut medrwn ni fod yn siwr fod gennym fywyd am byth?

Gadewch i'r plant ymateb. Siaradwch am bwysigrwydd cael ffydd yn Iesu. Pwysleisiwch hyn o'r adnod allweddol "Pan fyddwch chi'n credu byddwch chi'n cael bywyd drwy ei awdurdod o."

- Dilynwch i fyny os oes yna blant yn rhoi eu ffydd yn Iesu.

### Diwedd glo

Wyt ti'n credu fod yr Arglwydd Iesu wedi dod yn ol yn fyw? Dwedodd Iesu, "Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr." Mae Iesu wedi dod yn ol yn fyw. Os wyt ti fel Tomos, yn amau, dydy Iesu ddim yn dy gondemnio. Mae o isio dangos ei hun i ti. Gofynna iddo wneud hynny. Mae Duw wedi rhoi rhyddid i ti benderfynu drosot dy hun. Wnaiff o ddim ond dod atat ti os wyt ti eisiau iddo wneud hynny achos mae o'n parchu dy hawl di i benderfynu.